Samariaid yn ceisio cynnig gwasanaeth Cymraeg : Golwg360

Mae'r Samariaid yng Nghymru yn gobeithio gallu cynnig gwasanaeth 24 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ond, mae un arweinydd lleol wedi pwysleisio y bydd angen rhagor o wirfoddolwyr sy'n medru'r iaith er mwyn i'r elusen llinell argyfwng allu cyflawni hynny.

Y gobaith yw cyfuno adnoddau mewn gwahanol fannau ar hyd a lled y wlad, meddai Elwyn Jones, un o arweinwyr y Samariaid ym Mangor.

"Mae'r Samariaid yn ganolog yn gwneud ymchwil rŵan i ffeindio faint o siaradwyr Cymraeg sydd mewn canolfannau eraill er mwyn cynnig gwasanaeth llawn."

"Mae o'n hollol bwysig gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg nid yn unig o ran egwyddor ond er mwyn cynnig gwasanaeth go iawn," meddai Elwyn Jones. "Dydi pobol mewn argyfwng yn aml ddim yn gallu mynegi eu hunain yn iawn yn Saesneg.

Darllen rhagor : Golwg360

Llinell ffôn Gymraeg y Samariaid : 0808 164 0123 (7pm i 11pm, 7 diwrnod yr wythnos)

Llinell ffôn Saesneg y Samariaid : 116 123 (24/7)